POLISI AMRYWIAETH

Mae'r cwmni yn llwyr ymrwymedig i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol ac annheg ac yn gwerthfawrogi'r gwahaniaethau y mae gweithlu amrywiol yn cynnig i'r mudiad.

Ni fydd y cwmni yn gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, anabledd, cenedl, crefydd, oed, cyfeiriadedd rhywiol, statws teuluol neu unrhyw ffactor amherthnasol arall a bydd yn creu diwylliant sydd yn gwerthfawrogi meritocratiaeth, bod yn agored, tegwch a thryloywder.

Mae'r holl gyflogeion yn gyfrifol am hyrwyddo'r polisi hwn a'i ehangu. Ni fyddwn yn goddef ymddygiad, gweithredoedd na geiriau sydd yn torri'r polisi a byddwn yn ymdrin ag achosion o'r math yn unol â pholisi disgyblu'r Cwmni.

Bydd amcanion yn ymwneud ag ymarfer teg a chynhwysol yn cael eu cynnwys yn rhan o ddangosyddion perfformiad pob cyflogai a bydd yn ffurfio rhan hanfodol o arolygiadau perfformiad drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r polisi yn berthnasol ar gyfer pob cyflogai, cleient, cymuned, cyflenwr a chontractwr boed yn barhaol neu dros dro. Mae'r polisi yn berthnasol ar gyfer pob proses yn ymwneud â chyflogaeth a hyfforddiant ac unrhyw faterion sydd yn ymdrin â chwsmeriaid a chleientiaid. Bydd penderfyniadau yn ymwneud â chwsmeriaid a chymunedau wedi'u seilio ar feini prawf yn ymwneud â busnes yn unig ac ni fydd gwybodaeth amherthnasol yn ffurfio rhan o'r broses.

Bydd y polisi yn cael ei adolygu ar sail barhaol er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith, demograffig a gofynion busnes mewnol. Bydd cynnydd yn ymwneud â'r polisi yn cael ei gofnodi yn flynyddol a bydd adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'r tîm uwch reoli er mwyn trafod cynnydd ac adolygu statws y polisi.

Mae'r Cwmni wedi ymrwymo i'r prosesau canlynol:

Arweinyddiaeth

Mae'r Cwmni:

- wedi cydnabod pencampwr ar lefel uwch er mwyn arwain y strategaeth amrywiaeth, y rheolwr AD; ac
- wedi diogelu perchnogaeth a nawdd lefel uchel ar gyfer y rhaglen gan y Prif Weithredwr a Chadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr.

Archwiliad

Yn gyson, bydd y Cwmni yn:

- cynnal archwiliad cyflawn yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau, ymarfer polisïau a chanfyddiadau polisïau a phrosesau;
- casglu metrigau'r gweithlu a'u cymharu â mudiadau'r sector a mudiadau arfer da; a
- llunio adroddiad dadansoddi risg ar gyfer aelodau bwrdd uwch er mwyn gweithredu fel hwb ar gyfer gweithgarwch y dyfodol ledled y busnes.

POLISI AMRYWIAETH

Bydd yr ymchwiliad yn cynnwys adolygiad o'r holl brosesau er mwyn cadarnhau safle'r Cwmni o ran cydymffurfio ac arfer da. Bydd hyn yn cael ei gynnal trwy'r Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'r Fforwm Cyflogeion er mwyn cadarnhau canfyddiadau cyflogeion.

Datblygiadau Polisi

Mae'r Cwmni:

- yn meincnodi datganiadau polisi presennol mudiadau eraill a grwpiau ymgynghorol;
- yn datblygu adnoddau dynol a pholisïau eraill ac yn rhaeadru polisïau newydd sydd wedi'u cymeradwyo gan y Prif Weithredwr trwy sesiynau briffio busnes.

Hyfforddiant ac Addysg

Mae'r Cwmni:

- yn cynnal dadansoddiad anghenion hyfforddiant yn ymwneud â dealltwriaeth am amrywiaeth a'i rheoli;
- yn ymgynghori â rhanddeiliaid a chwaraewyr allweddol ar anghenion dysgu'r mudiad;
- yn integreiddio amrywiaeth i raglenni hyfforddiant a datblygu prif-ffrwd; ac
- yn integreiddio galluoedd amrywiaeth i raglenni datblygu ac asesu a phrosesau dewis.

Cyfathrebu ac ymgynghori

Mae'r Cwmni:

- wedi gosod llinellau cyfathrebu allweddol ledled y busnes trwy ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol;
- wedi dosbarthu cynllun cyfathrebiadau lefel uchel i uwch reolwyr ar gyfer sesiynau briffio tîm a datblygu llinellau cyfathrebu "adrodd yn ôl" er mwyn sicrhau atborth; ac
- wedi sicrhau bod cyfathrebiadau prif-ffrwd yn atgyfnerthu'r negeseuon cynhwysol a'u prif-ffrydio i brosesau ddydd i ddydd.

Adnoddau

Mae gan y Cwmni:

- linellau adrodd ffurfiol ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn targedau ac amcanion;
- Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sydd â chynrychiolwyr o bob rhan y mudiad;
- ymrwymiad cyllidol gan y Prif Weithredwr er mwyn galluogi ymgymryd â gweithredoedd perthnasol (er enghraifft, newidiadau rhesymol er mwyn cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a rhaglenni cyfathrebu a hyfforddiant).

POLISI AMRYWIAETH

Mesur

Mae'r Cwmni:

- yn casglu holl fetrigau'r gweithlu sydd ar gael oddi ar gronfeydd data presennol er mwyn eu meincnodi yn erbyn cwmnïau'r sector, demograffig a safonau arfer da;
- yn gweithio tuag at dargedau ar gyfer cyfansawdd y gweithlu dros gyfnod o bum mlynedd ynghyd â'r Prif Weithredwr, y Bwrdd a'r Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth;
- yn defnyddio dulliau mesur ffurfiol er mwyn asesu'r hinsawdd o fewn y Cwmni (er enghraifft arolygon staff); ac
- y mae ganddo berthnasau â chyrff meincnodi allanol er mwyn asesu cynnydd.

Proffil Allanol

Mae'r Cwmni:

- wedi meithrin perthnasau da â mudiadau er mwyn gallu rhwydweithio, cyfnewid arfer da a chodi proffil y Cwmni;
- wedi meithrin perthnasau da â'r fasnach a'r wasg leol a chenedlaethol er mwyn datblygu delwedd allanol dda gan leoli'r Cwmni ar flaen y gad;
- yn ceisio, yn weithredol, ddysgu a datblygu arfer da ynghylch amrywiaeth; ac
- yn hyrwyddo a marchnata arferion arfer da amrywiaeth y Cwmni ymhlith busnes prif-ffrwd.